

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3360>

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Chwefror

2016

Amser: 09.01 – 11.24

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Jocelyn Davies AC (Cadeirydd) Peter Black AC Christine Chapman AC Mike Hedges AC Ann Jones AC Julie Morgan AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Syr Derek Jones, Llywodraeth Cymru Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru Andrew Hobden, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Gerallt Roberts (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Helen Jones (Ymchwilydd) Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

	Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
	Gerald Holtham (Cynghorwr Arbenigol)

## TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones AC.

### 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3 Ymchwiliad etifeddiaeth: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan: Syr Derek Jones – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru; Marion Stapleton – Pennaeth Uned Gyflawni'r Prif Weinidog a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Uned Lywodraethu, Llywodraeth Cymru; a Andrew Hobden – Economegydd, Llywodraeth Cymru, ynghylch yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad fel rhan o'i ymchwiliad etifeddiaeth.

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

### 5 Ymchwiliad etifeddiaeth: Ystyried y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

### 6 Ymchwiliad ariannu yn y dyfodol: Ystyried yr adroddiad drafft

6.1 Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad a bydd yn ei ystyried ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

## **7 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad**

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a penderfynodd i ddiwygio'r Bil drafft yn sgil yr ymateb i'r ymgynghoriad.